Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Llysfasi
Coleg Llaneurgain
Hyfforddiant Wrecsam

Deeside College
Llysfasi College
Northop College
Wrexham Training

**Pwyllgor Cyllid**

**FIN(4) 16-12 – Papur 4**

# Dyraniadau Cyllideb Pwyllgor Cyllid

Cyflwyniad gan Goleg Glannau Dyfrdwy â ColegauCymru

ColegauCymru
CollegesWales

**Hydref 2012**

## Cyflwyniad

1. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar 17 Hydref 2012, ac yn gwneud hynny gyda chefnogaeth ColegauCymru.

2. Mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn un o'r colegau mwyaf, a mwyaf llwyddiannus yng Nghymru gyda phroffil rhagorol gan Estyn am gyflwyniad addysg bellach a dysgu yn y gweithle. Yn 2007 ef oedd y coleg cyntaf yn y DU i ennill Graddau 1 am ei holl ddarpariaeth, a llwyddodd yn 2012 i gael yr adroddiad arolwg gorau gan Estyn. Mae wedi cyflawni hyn ochr yn ochr â pherfformiad ariannol cyson gryf, sydd wedi cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn isadeiledd y coleg ac i gefnogi dau uniad. Ym mis Awst 2013 mae disgwyl i Goleg Glannau Dyfrdwy uno a Choleg Iâl.

3. Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 17 coleg addysg bellach a dau sefydliad AB yng Nghymru[1]. Mae'n cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i siapio a chefnogi gweithrediad polisi. Cydnabuwyd ei swyddogaeth aeddfed a rhagweithiol o fewn y Papur Gwyn ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

4. Lluniwyd y papur yma gan Goleg Glannau Dyfrdwy â ColegauCymru mewn ymateb i'r dyraniadau cyllideb ar gyfer 2013-14. Mae rhan gyntaf y papur yn adlewyrchu barn ColegauCymru fel yr amlinellwyd mewn llythyr i Jocelyn Davies AC, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 21 Medi 2012. Mae'r safbwyntiau hyn wedi eu cryfhau gan brofiad Coleg Glannau Dyfrdwy, a fernir yn annibynnol i fod yn un o'r colegau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru.

### Rhai sylwadau cyffredinol

5. Er gwaethaf y rhagolwg economaidd hynod heriol, barn gyffredinol ColegauCymru yw ein bod ni'n cael y cyfle i ailadeiladu ein dyfodol diwydiannol yn seiliedig ar weithlu fwyfwy medrus gyda darparwyr dysgu yn ymateb i anghenion diwydiant a chyflogwyr yn gyffredinol. Yn ein barn ni mae nifer o ffactorau allweddol y mae'n rhaid i'r Gyllideb fynd i'r afael a hwy.

### Cynnal buddsoddiad mewn allbynnau dysgu o ansawdd

6. Mae'r brif nod yma yn rhywbeth sy'n cael ei adlewyrchu'n haeddiannol yn Llythyr Blaenoriaethau'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012/13 lle mae'n ei gwneud hi'n hanfodol i golegau wella sgiliau eu dysgwyr i lefel 3 ac uwch. Mae'r flaenoriaeth yma wedi ei gefnogi trwy ddyraniadau i golegau yn

[1] Yn y papur hwn defnyddir y term' Coleg AB' neu 'Coleg' i gynnwys yr 17 Coleg AB a dau sefydliad AB.

2012/13 o gynnydd ariannol o 2.5% a rhagwelir codiad o 1% yn 2013/14. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Gweinidog i fuddsoddi mewn sectorau sy'n cyflwyno'r targedau allweddol a amlinellwyd yn y *Rhaglen ar gyfer Llywodraeth* yn 2011.

7. Mae Colegau wedi ymateb i'r buddsoddiad yma gyda phroffil ansawdd cynyddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae ein hymateb i'r Papur Gwyn ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn nodi

> *"Mae Prif Arolygydd Estyn yn ei hadroddiadau blynyddol yn fynych wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am berfformiad colegau AB. Bu i Adroddiadau Canlyniadau Dysgwyr blynyddol yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer 2010/11 ddangos bod 90% o fyfyrwyr yn cwblhau eu cyrsiau mewn colegau AB ac o'r rhain bod 90% yn cyflawni eu cymwysterau – gan wneud cyfraddau llwyddiant cyffredinol o 81%. Gellir cymharu hyn a chwblhad llwyddiannus o 40% yn 2000/01. Nid yw colegau fodd bynnag yn hunanfodlon gyda'r cynnydd aruthrol hwn ac maent yn ceisio gwella yn barhaus". Mae buddsoddiad mewn colegau yn dwyn budd clir ar ddysgu o ansawdd.*

**Buddsoddiad mewn sgiliau yn y 'Ras i'r Brig' byd-eang**

8. Mae cynnal y buddsoddiad cyhoeddus hwn mewn sgiliau yn y tymor canolog i hir yn hanfodol. Mae addysg alwedigaethol a gyflwynir gan golegau yn gwneud cyfraniad pwysig ar gyfer cwrdd ag amcanion agenda sgiliau uchelgeisiol Cymru.

9. Mae'r angen i ddatblygu sylfaen sgiliau ar gyfer pwyslais newydd ar dwf diwydiannol a'r diwydiant adeiladu yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn ar alw am lafur yng Nghymru i fyny i 2020. Yn ôl amcangyfrifon diweddar Adroddiad *Dyfodol Gwaith* Comisiwn y DU ar Gyflogaeth a Sgiliau ' *' Cymru yw'r unig genedl/rhanbarth [yn y DU] lle mae disgwyl i alwedigaethau crefftau medrus dyfu mewn cyflogaeth ac nid dirywio"* a disgwyl i dwf cyflogaeth yng Nghymru fod '*uwchlaw cyfartaledd y DU*…….*ar gyfer y sector cynradd a chyfleustodau, adeiladu a masnach, llety a chludiant'*. [2] Mae hyn yn rhoi ysgogiad penodol i fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar wella sylfaen sgiliau galwedigaethol hanfodol Cymru.

10. Mae'r ysgogiad yma'n cael ei gefnogi gan rhai symudiadau arwyddocaol a all fod yn digwydd yn yr economi fyd-eang ehangach. Bu i'r *Economist* ar 21 Ebrill 2012 roi sylw arbennig i'r hyn y mae'n ei alw yn 'trydydd chwyldro diwydiannol' ar gyfer gweithgynhyrchu ac arloesedd. Nodwyd "*bod yr olwyn bron yn dod yn ôl yn grwn'* gyda rhai swyddi gweithgynhyrchu tra medrus yn dod nôl i'r Gorllewin o Asia yn y ddegawd nesaf o ganlyniad i gostau llafur ac

[2] Crynodeb Llywodraeth Cymru o adroddiad UKCES *Working Futures 2010-2020*, Rhagfyr 2011, p.1 & 5.

ynni uwch a'r gwariant cludiant ychwanegol yn ymwneud a chael cynhyrchion nôl i farchnadoedd Gorllewinol.

11. Mae Cymru angen gweithlu medrus er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu gwneud y mwyaf o unrhyw symudiad o'r fath, mewn unrhyw 'ras i'r brig' y gadwyn gwerth mewn cynhyrchion a gwasanaethau. Bydd angen pobl fedrus a hyblyg gyda *sgiliau lefel canolradd ac uwch* yn unol â Llythyr Blaenoriaethau AB Y Gweinidog.

12. Mae colegau mewn sefyllfa dda iawn i ymateb i'r agenda sgiliau lefel canolradd ac uchel yma, gan eu bod yn cyflwyno amrediad o raglenni o lefel mynediad sgiliau sylfaenol trwodd i ddarpariaeth lefel gradd. Felly mae colegau'n beiriannau cyflogadwyedd a dilyniant – yn rhoi hwb i gynhyrchiant gweithlu Cymru.

**Buddsoddiad mewn chwaraewyr economaidd pwerus sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr**

13. Mae Colegau yng Nghymru yn chwaraewyr economaidd canolog. Bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu Prifysgol Caerdydd [3] i ymchwilio mewn i effaith economaidd *gweithgaredd pwrcasu* sefydliadau AB a'u staff a myfyrwyr. Bu i ymchwil wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth yr Alban ddangos y dychweliad ar fuddsoddiad mewn *cymwysterau*. Mae cyfuno'r ddau ddangosydd yma (a thybio bod colegau AB yng Nghymru yn eithaf tebyg i golegau AB yn yr Alban) yn dangos bod colegau AB yng Nghymru yn cyfrannu yn fras £1.4bn i economi Cymru; ffigwr tebyg i'r hyn a gynhyrchir gan sefydliadau AU. Bydd y ffigwr yma wedi cynyddu'n sylweddol ers dyddiad yr astudiaeth.

14. Yn ychwanegol at y cyfraniadau economaidd uniongyrchol a ddaeth o ganlyniad i fuddsoddiad mewn AB, mae astudiaethau hefyd wedi arddangos manteision ychwanegol i ddysgwyr. Er enghraifft mae astudiaeth yng Nghanada wedi dangos bod myfyrwyr yn elwa o enillion cynyddol a gwell ffyrdd o fyw, trethdalwyr yn elwa o economi ehangach a chostau cymdeithasol llai; a chymdeithas yn gyffredinol yn elwa o gyfleoedd swyddi a buddsoddiad cynyddol, refeniw busnes uwch, gwell argaeledd o arian cyhoeddus a lleddfu baich trethi.[4] Mae'r gwelliannau o ran cynhyrchiant o golegau'n gwella sgiliau a'u gwaith uniongyrchol â chyflogwyr yn ychwanegu budd ychwanegol aruthrol i'r economi sy'n fwy anodd ei fesur – ond sydd hyd yn oed mwy pwysig nag allbwn economaidd uniongyrchol colegau.

15. Mae gwaith gyda busnesau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i'r sector dros sawl blwyddyn. Ail-gadarnhawyd hyn yn Llythyr Blaenoriaethau'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau[5] oedd yn annog colegau i fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyflogwyr. Mae ColegauCymru wedi amcangyfrif bod colegau'n ymgysylltu a thros 25,000 o fusnesau pob blwyddyn i weithio ar ddatblygu cyfres o gynhyrchion wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion cyflogwyr yn y sector breifat a chyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn amrywio o waith ar brentisiaethau (pob lefel), rhaglenni hyfforddiant wedi eu

teilwra i staff, a gwaith ar arloesi cynhyrchion a chyngor cyffredinol ar anghenion sgiliau'r dyfodol eu gweithlu. Mae colegau'n gyson yn ailddyblu eu hymdrechion er mwyn sicrhau bod eu gwaith gyda busnesau yn chwim, ar flaen y gad ac yn addas i anghenion cyflogwyr unigol. *Mae hyn yn nod ganolog i'r holl golegau yng Nghymru.*

**Cwestiynau Allweddol**

**(i) Gan edrych ar y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2013-14 oes gennych chi unrhyw bryderon o safbwynt strategol cyffredinol?**

**(ii) Gan edrych ar y dyraniadau cyllideb ar gyfer 2013-14 oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch unrhyw feysydd penodol?**

16. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14 yn nodi y bydd addysg bellach a dosbarthiadau chweched dosbarth yn derbyn £455.7m. Nid yw hi'n glir eto pa gyfran a ddyrennir i golegau AB

17. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod bu i'r llythyr dyraniadau cyllido a anfonwyd i golegau addo cynnydd ariannol o 1% yn 2013/14[6]. Mae colegau'n cynllunio ar y sail y bydd yr addewid yma'n cael ei hanrhydeddu. Nid yw hyn yn gynnydd mewn gwirionedd. Roedd chwyddiant yn Awst 2012 yn 2.5% a bydd rhaid i golegau sicrhau fod arbedion effeithlonrwydd pellach mewn lle.

18. Yn y flwyddyn gyfredol 2012/13 (mae blwyddyn ariannol y coleg yn rhedeg o Awst i Orffennaf) mae dyraniadau fel a ganlyn: £285.7m arian rheolaidd, £8.7m Llwybrau i Brentisiaeth a £17.5m Sgiliau Oedolion – cyfanswm o £311.9m. Mae'n hanfodol bod y cwantwm yn cael ei gynnal o 2013 ymlaen, hyd yn oed os oes newidiadau blaenoriaeth o fewn y ffrydiau blaenoriaeth ar wahân

19. I Goleg Glannau Dyfrdwy'r dyraniadau ar gyfer 2012/13 yw £19.5m ar gyfer arian rheolaidd, £0.7m ar gyfer Ll i B, a £1.3m i Sgiliau Oedolion – cyfanswm o £21.5m. Yn ychwanegol at hyn, mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi sicrhau £14.5m pellach o ffynonellau eraill.

20. Mae'r colegau hefyd yn derbyn cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno dysgu yn y gweithle. Mae hyn trwy gynigion cystadleuol a chyllid yn cael ei dderbyn trwy gytundeb ac nid grant. Y cyfanswm a dderbyniwyd gan golegau yn 2009/10 (y ffigyrau diweddaraf) oedd £28m. Derbyniodd Coleg Glannau Dyfrdwy £5.7m.

21. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o incwm a gwariant ar gyfer colegau AB yn 2009/10 (y ffigyrau diweddaraf). Mae colegau ar gyfartaledd yn denu oddeutu 20% ar ben cyllid Llywodraeth Cymru. Dros y deg mlynedd diwethaf ar brisiau heddiw mae colegau wedi creu oddeutu £1 biliwn. Cynhyrchir yr incwm yma trwy adennill costau llawn cyrsiau ar gyfer busnes, cyflwyno

prosiectau, ymgynghori, recriwtio rhyngwladol, bwytai a ffreuturiau, siopau fferm, cyfleusterau hamdden a ffynonellau eraill.

22. Mae’n bwysig bod colegau AB yn parhau i gael yr hyblygrwydd i greu incwm ychwanegol. Mae gwargedau’n cael eu defnyddio i fuddsoddi mewn adeiladau ac offer, gwella cyfleusterau a sybsideiddio darpariaeth o fewn y coleg. Er enghraifft, Coleg Glannau Dyfrdwy sy’n creu oddeutu 23% o’i incwm o ffynonellau allanol ac yn gosod targed gwarged blynyddol o 3% o incwm. Mae’r pwynt olaf yn gyson a nifer o golegau eraill ar draws y DG. Dros yr wyth mlynedd diwethaf mae hyn wedi ei gyflawni gyda gwarged cyfartalog o 4% yn cael ei gyflawni sy’n dod i gyfanswm o £8.5m dros y cyfnod yma. Mae hyn wedi ei fuddsoddi; ynghyd a grantiau cyfalaf a benthyciad i wella’r ystad ac isadeiledd yn sylweddol ar yr holl gampysau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru.

**Incwm a Gwariant Sector AB 2009/10**

| **Incwm** | **£000** | **% o’r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Cyllid LlC (yn cynnwys DYG) | 342,703 | 79.5 |
| Ffioedd hyfforddi a chytundebau addysg | 46,715 | 10.8 |
| Incwm arall | 40,980 | 9.5 |
| Incwm Buddsoddi | 557 | 0.1 |
| **Cyfanswm Incwm** | **430,956** | **100.0** |
| **Gwariant** | | |
| Staff | 271,431 | 64.3 |
| Costau gweithredu eraill | 128,774 | 30.5 |
| Dibrisiant | 20,395 | 4.8 |
| Llog sy’n daladwy | 1,270 | 0.3 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **421,870** | **100** |

23. Mae colegau wedi bod yn gwneud arbedion effeithlonrwydd. Mae un ar ddeg uniad wedi cymryd lle neu’n mynd rhagddynt. Bu i arolwg gan ColegauCymru yn 2011 nodi bod yr uniadau oedd wedi cymryd lle bryd hynny wedi arbed yn fras swm o £500,000 y coleg y flwyddyn, yn bennaf mewn rheolaeth, swyddogaethau gweinyddol a systemau. Bu i’r un arolwg ddangos bod colegau wedi gwneud arbedion cyfartalog o tua £160,000 y coleg y flwyddyn trwy wasanaethau rhanedig.[7] Mae Coleg Glannau Dyfrdwy wedi cynnal ei berfformiad ariannol sector arweiniol er gwaethaf uno gyda Choleg Garddwriaeth Cymru (2009) a Choleg Llysfasi (2010) gan yr etifeddwyd y ddau gyda diffygion ariannol a rhagamcaniadau negyddol ar gyfer y dyfodol.

24. Mae hyn yn amlygu'r manteision y gellir ei gyflawni drwy ailsefydlu effeithiol a strategol o isadeiledd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru – gwnaed arbedion, ni chollwyd unrhyw swyddi, mae cyrsiau a llefydd i ddysgwyr wedi eu hehangu gyda mwy o arian yn cael ei wario ar y rheng flaen ac mae buddsoddiad wedi cymryd lle. Mae angen i sefydliadau a sectorau sy'n cofleidio newid yn y ffordd yma gael eu cydnabod a ni ddylai ariannu'r dyfodol gosbi sefydliadau sy'n cael eu rheoli'n effeithiol.

25. Mae Colegau mewn trafodaethau ar hyn o bryd a'r undebau llafur ar y cyd ar gyfer cyflwyno cytundeb cyffredin. Mae'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wedi nodi y dylai unrhyw gytundeb cyffredinol newydd fod yn niwtral ran cost ar gyfer y sector AB cyfan. Bydd rhai colegau'n amlwg yn ennillwyr ac eraill yn colli allan wrth i gostau staff gynyddu mewn rhai a lleihau mewn eraill. Mae'n debygol y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd i leihau unrhyw effaith. Mae sector AB modern a deinamig yng Nghymru angen cytundebau cyflogaeth fodern a deinamig. Bydd hyn yn sicrhau swyddi, gwella gwasanaethau i ddysgwyr a chwarae rhan allweddol mewn gwella perfformiad economaidd Cymru.

26. Mae colegau hefyd yn debygol o wynebu costau cynyddol o ganlyniad i gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwyr i gynllun pensiwn athrawon a chynlluniau pensiwn llywodraeth leol amrywiol. Yn yr achos diwethaf gall cyfraniadau cyflogwyr eisoes fod dros 20% o'r cyflogau. Ochr yn ochr â hyn, mae rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn tybio y bydd cyfyngiadau cyflogau parhaus o fewn y sector gyhoeddus.

**27.** Mae'r Papur Gwyn ar addysg bellach ac addysg uwch yn cefnogi colegau i gael hyblygrwydd ariannol cynyddol o fewn cyd-destun cyffredinol polisiau Llywodraeth Cymru. Mae colegau wedi croesawu'r cylch cyllido tair blynedd sydd wedi rhedeg o 2011/12 i 2013/14. Mae hyn wedi gwella gallu'r coleg i gynllunio a gwneud penderfyniadau hirach er budd y dysgwyr. Yn flaenorol roedd y dyraniadau i bob coleg yn aml yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn gydag ychydig o amser i gynllunio'n effeithiol. **Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau gyda chynllun tair blynedd bellach i ddilyn ymlaen ar ôl 2013/14.**

28. Mae galw mawr am gyllid cyfalaf fel bod colegau'n gallu dod a'u hadeiladau i fyny i safon yr 21ain ganrif. Cydnabyddir bod swmp y buddsoddiad yn canolbwyntio ar ysgolion ond mae colegau wedi rhoi amrediad eang o gynigion uchelgeisiol ymlaen fydd angen eu hariannu yn yr hir dymor.

**(iii) Beth ydych chi'n feddwl fydd effaith cynigion cyllideb ddrafft 2013-14 ar eich gallu i gyflwyno gwasanaethau a chwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru?**

29. Bu i lythyr y Gweinidog Addysg osod pedair prif flaenoriaeth ar gyfer y sector yn 2012/13 a 2013/14.[8] Y rhain oedd

- Dilyniant a chefnogaeth i ddysgwyr: uchafu llwybrau dilyniant i lefel 3 ag uwch, hyfforddiant a chyflogaeth

- Codi safonau a chyflawniad: cyflwyno gwelliannau mewn safonau a pherfformiad, yn arbennig llythrennedd a rhifedd dysgwyr

- Ymgysylltiad cyflogwyr a menter; ymgysylltiad effeithiol a chyflogwyr a datblygu diwylliant o fentergarwch

- Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg; cynyddu argaeledd ac annog dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

30. Mae colegau'n ymateb yn gadarnhaol i'r blaenoriaethau allweddol yma ac yn ceisio adeiladu ar eu cynnig lefel 3 i ddysgwyr. Byddant yn parhau i godi safonau. Ar hyn o bryd ar gyfartaledd mae 90% o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau a 90% yn cyflawni eu cymwysterau. Bydd colegau'n gweithio'n galed i gynyddu eu cyfradd cwblhau lwyddiannus o 81%. Mae perfformiad presennol Coleg Glannau Dyfrdwy yn 86%.

31. Mae ymgysylltiad cyflogwyr i golegau'n fusnes craidd. Bydd colegau'n mynd ati i ddatblygu ymhellach eu cysylltiadau â chyflogwyr lleol a cheisio bod eu pwynt cyswllt cyntaf. Mae colegau wedi croesawu buddsoddiad mewn hyrwyddwyr dwyieithrwydd ac yn cydnabod y sialens hir dymor o gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Maent yn cydnabod bod datblygu staff sy'n gymwys i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhywbeth na ellir ei gyflawni dros nos ac y bydd angen buddsoddiad cynaliadwy yn y dyfodol rhagweladwy.

32. Mae'n debygol unwaith y bydd yr uniadau a gynlluniwyd wedi eu cwblhau erbyn Awst 2013 y bydd y ffocws i ffwrdd o strwythurau ac yn hytrach ar ganolbwyntio mwy ar wella addysgu a dysgu.

## (iv) Cymorth pellach i'r Pwyllgor

33. I grynhoi rydym yn croesawu'r buddsoddiad parhaus mewn sgiliau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod yr hinsawdd ariannol anodd y mae colegau'n gorfod gweithredu ynddo ac mae'r papur yma'n pwyntio at rai meysydd lle mae pwysau ar y colegau, fel yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd yng ngoleuni cynnydd ariannol islaw chwyddiant.

34. Mae buddsoddiad cynaliadwy mewn colegau AB yn darparu’r sail ar gyfer adferiad diwydiannol yng Nghymru a gweithlu medrus a chynyddol gynhyrchiol. Byddai Coleg Glannau Dyfrdwy a ColegauCymru yn falch o ddarparu’r pwyllgor ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig bellach mewn perthynas â’r gyllideb neu gyfraniad ehangach y colegau i ddyfodol economaidd cyffredinol neu addysgiadol Cymru.